



Ein cyf/Our ref ARD/05372/16
Cyng. W Gwyn Hopkins

Hydref 2016

Annwyl Gwyn a Gwyneth

Diolch am eich neges ebost dyddiedig 8 Hydref ynglŷn â chynnig Cyngor Sir Gâr i uno dwy ysgol gynradd dwy ffrwd yn Llangennech er mwyn sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar yr un safle.

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae'r cyfrifoldeb am gynllunio lleoedd ysgol yn nwylo awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadw llygaid ar sut y mae eu patrwm presennol o ddarparu ysgolion yn cyfateb i'r galw cyfredol a'r galw a ragwelir ar gyfer llefydd a'r hyn sy'n ofynnol gan y cwricwlwm modern. Nid yw Llywodraeth Cymru'n ymyrryd yn uniongyrchol â chynllunio lleoedd ysgolion.

Creodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Deddf 2013) gyfundrefn newydd ar gyfer penderfynu cynigion trefniadaeth ysgolion lle mae gwrthwynebiadau. Cyn hynny, yr oedd yr holl gynigion o'r fath yn dod ger bron Gweinidogion Cymru i'w penderfynu. O dan y gyfundrefn newydd bydd y rhan fwyaf o gynigion a wrthwynebir yn cael eu penderfynu gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, o dan Ddeddf 2013 gall cynnig a gymeradwywyd neu a wrthodwyd gan awdurdod lleol ddod ger bron Gweinidogion Cymru i'w ystyried os bydd rhai partïon cyfyngedig yn penderfynu cymryd y cam hwnnw. Y partïon cyfyngedig yw:

- awdurdod lleol arall a effeithir gan y cynigion;
- y corff crefyddol addas ar gyfer unrhyw ysgol a effeithir;
- corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol waddoledig sy'n rhan o'r cynigion;
- ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu waddoledig sy'n rhan o'r cynigion; a
- sefydliad addysg bellach a effeithir gan y cynigion.

O ystyried y rôl y gallai fod gan Weinidogion Cymru yn y broses statudol ni fyddai'n addas i mi gynnig sylwadau ar rinweddau unrhyw gynnig ar hyn o bryd.

Rwyf yn deall bod Cyngor Sir Gaerfyrddin, yn dilyn cyfnod ymgynghori rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016 ac ystyried yr ymatebion, wedi cyhoeddi hysbysiad statudol ar 5 Medi i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddod â darpariaeth Ysgol Babanod ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd i blant 3 -11 oed yn Llangennech. Roedd gan unigolion a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig hyd at 2 Hydref i wneud hynny. Mater i'r awdurdod lleol yw hi nawr i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen, ac ni fuasai'n addas i mi gynnig sylwadau.

Rwyf wedi nodi yr hyn yr ydych yn ei ddweud ynglŷn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol sy'n cynnwys, yn fras, bwriad yr awdurdod lleol i symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol. Gellir cymryd bod cymeradwyo Cynllun 2014-17 gan Weinidogion Cymru yn arwydd o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cynigion hyn ond nid yw'r gymeradwyaeth honno'n rhyddhau'r awdurdod lleol rhag y ddyletswydd statudol i lynu wrth y prosesau yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cyfeirir at gefnogaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chryfhau'r iaith Gymraeg mewn llawer strategaeth a pholisïau allweddol ond nid yw hynny'n arwydd o ragderfyniad mewn perthynas ag unrhyw gynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Rydych yn ymwybodol bod yr awdurdod lleol wrthi ar hyn o bryd yn llunio Cynllun Strategol 3 blynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2017 – 2020 i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo (neu beidio).

Yn ddiffuant

Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Lifelong Learning and Welsh Language